Pecyn Dogfennau

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

**DYDD MERCHER, 5 GORFFENNAF 2023**

**AT: HOLL AELODAU'R CYNGOR SIR**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD **AML-LEOLIAD** Y **CYNGOR SIR** A GYNHELIR YN **SIAMBR, NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN, SA31 1JP AC O BELL** AM **10.00 YB, DYDD MERCHER, 12FED GORFFENNAF, 2023** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

*Wendy Walters*

**PRIF WEITHREDWR**

**GELLIR GWYLIO'R CYFARFOD AR WEFAN Y CYNGOR DRWY'R DDOLEN CANLYNOL:-**
**HTTPS://CARMARTHENSHIRE.PUBLIC-I.TV/CORE/PORTAL/HOME**

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Emma Bryer** |
| **Ffôn (llinell uniongyrchol):** | **01267 224029** |
| **E-bost:** | **Ebryer@sirgar.gov.uk** |

**GELLIR GWYLIO'R CYFARFOD AR WEFAN Y CYNGOR DRWY'R DDOLEN CANLYNOL:- https://carmarthenshire.public-i.tv/core/portal/home**

Wendy Walters Prif Weithredwr, *Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

# A G E N D A


1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.**

3. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.**

4. **CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD, AELODAU'R CABINET NEU'R PRIF WEITHREDWR (OS OES RHAI)**

5. **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR Y 21 MEHEFIN 2023** 5 - 12

6. **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU I'R CYNGOR LLAWN** 13 - 26

7. **DERBYN ADRODDIAD CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD AR Y 19 MEHEFIN, 2023** 27 - 34

8. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).**

9. **CWESTIYNAU GAN YR AELODAU:-**

   **9 .1 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD JOHN JAMES I'R CYNGHORYDD ALED VAUGHAN OWEN AELOD Y CABINET DROS NEWID HINSAWDD, DATGARBONEIDDIO A CHYNALIADWYEDD**

   “Mae'r modd y mae newid yn yr hinsawdd yn cyflymu, datgoedwigo, llygredd a gweithgareddau dynol eraill wedi gwthio byd natur i'r dibyn, gan fygwth y cydbwysedd bregus sy'n cynnal bywyd ar y Ddaear.

   Sut ydych chi'n credu y gall Cyngor Sir Caerfyrddin ymateb orau i'r Argyfwng Natur y mae ef a Llywodraeth Cymru wedi'i ddatgan?”

10. **COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN)**

   **10 .1 IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL - 7 MEHEFIN 2023**

   **10 .2 PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD - 9 MEHEFIN 2023**

   **10 .3 PWYLLGOR SAFONAU - 12 MEHEFIN 2023**

   **10 .4 PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL - 16 MEHEFIN 2023**

**10 .5 PWYLLGOR CYNLLUNIO - 22 MEHEFIN 2023**

**10 .6 PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, POBL IFANC A'R GYMRAEG - 23 MEHEFIN 2023**

**10 .7 PWYLLGOR CRONFA BENSIWN DYFED - 26 MEHEFIN 2023**

**10 .8 PWYLLGOR TRWYDDEDU - 27 MEHEFIN 2023**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# CYNGOR SIR

## DYDD MERCHER, 21 MEHEFIN 2023

**PRESENNOL** Cynghorydd B.A.L. Roberts (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| S.M. Allen | K.V. Broom | P. Cooper | C.A. Davies |
| B. Davies | G. Davies | H.L. Davies | K. Davies |
| L. Davies | T. Davies | L.D. Evans | S. Godfrey-Coles |
| J.K. Howell | P. Hughes-Griffiths | J.D. James | M. James |
| G.H. John | G.R. Jones | H. Jones | A. Lenny |
| M.J.A. Lewis | A. Leyshon | K. Madge | M. Palfreman |
| D. Price | E. Rees | E.M.J.G. Schiavone | E. Skinner |
| R. Sparks | D. Thomas | E.G. Thomas | G.B. Thomas |
| M. Thomas | J. Tremlett | A. Vaughan Owen | |

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| L.R. Bowen | J.M. Charles | M.D. Cranham | D.M. Cundy |
| S.A. Curry | A. Davies | T.A.J. Davies | C. Davies |
| S.L. Davies | M. Donoghue | A. Evans | D.C. Evans |
| H.A.L. Evans | N. Evans | R.E. Evans | W.T. Evans |
| A.D. Harries | J.P. Hart | T.M. Higgins | P.M. Hughes |
| R. James | J.P. Jenkins | B.W. Jones | D. Jones |
| A.G. Morgan | D. Nicholas | B.D.J. Phillips | S.L. Rees |
| J. Seward | H.B. Shepardson | F. Walters | P.T. Warlow |
| D.E. Williams | J. Williams | | |

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**

W. Walters, Prif Weithredwr
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
C. Higginson, Rheolwr Cyfryngau
L. Jenkins, Swyddog Cymorth y Cabinet
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
A. Edwards, Electoral & Civil Registration Services Manager
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**
I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio
S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aelodau
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau

**Siambr - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 10.00 - 11.40 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr A. Davies, Ll.M. Davies, C.A. Jones, N. Lewis a D. Owen.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| S. Davies | 10.1 Cwestiwn gan Charlie Evans i'r Cynghorydd Edward Thomas, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith | Yn gwethio i Dolen Teifi, caniatawyd gollyngiad i siarad ond nid pleidleisio |

## 3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.

- Dywedodd y Cadeirydd ei bod hi, a'i chydymaith wedi mynychu nifer o ddigwyddiadau gan gynnwys cynyrchiadau theatr amatur, seremonïau urddo'r maer yng Nghaerfyrddin a Phorth Tywyn a hefyd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a gynhaliwyd yn Llanymddyfri.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd H. Davies at Eisteddfod yr Urdd a gynhaliwyd yn Llanymddyfri yn ddiweddar ac mynegodd ei werthfawrogiad i bawb a fu'n rhan o redeg a chefnogi'r digwyddiad.
- Roedd y Cynghorydd D. Thomas wedi llongyfarch Ffion Davies o Benygroes ar gael ei dewis i gynrychioli Cymru fel aelod o'r tîm rygbi saith bob ochr dan 18 oed.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd A. Vaughan Owen at y ffaith y bu yn Sinema Cross Hands i weld cynhyrchiad o "Fashion Re-imagined" a hyrwyddwyd gan Bwyllgor Newid Hinsawdd cangen Pump-hewl o Sefydliad y Merched a oedd yn tynnu sylw at effaith y diwydiant ffasiwn ar newid hinsawdd a'r defnydd o adnoddau ac i groesawu'r cysyniad o economi gylchol.
- Mynegodd y Cynghorydd L. Bowen ei longyfarchiadau i Jonny Clayton o Bontyberem ar ennill Cwpan Dartiau'r Byd am yr 2il waith mewn tair blynedd gyda'i bartner Gerwyn Price.

## 4. CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD, AELODAU'R CABINET NEU'R PRIF WEITHREDWR (OS OES RHAI)

Rhoddodd Arweinydd y Cyngor y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am y sefyllfa bresennol ynghylch penderfyniad y Swyddfa Gartref i ddefnyddio Gwesty Parc y Strade yn y Ffwrnes ar gyrion Llanelli i ddarparu llety ar gyfer ceiswyr lloches. Dywedodd fod diweddariad llafar wedi'i dderbyn y diwrnod cynt yn nodi y byddai hyd at 241 o unigolion yn cyrraedd mewn grwpiau o 50 o bobl o'r 10fed o Orffennaf ymlaen a'u osod mewn 77 ystafell yn y gwesty. Rhoddodd wybodaeth i'r Cyngor am y sylwadau/pryderon a wnaed gan y Cyngor, a'i bartneriaid, i'r Swyddfa Gartref yn erbyn y cynnig annoeth hwn gan ddangos amharch llwyr yn ogystal â diffyg ymgynghori a chyfathrebu. Roedd y Cyngor wedi cymryd cyngor cyfreithiol a chyngor chynllunio ynghylch y cynnig ac roedd yn parhau i edrych ar yr holl opsiynau posibl gyda'r bwriad o atal llety i geiswyr lloches yn y gwesty. Cadarnhaodd pan fyddai ganddo ragor o wybodaeth y gallai rannu yn gyhoeddus, byddai'n rhannu'r wybodaeth honno gydag aelodau'r Cyngor

Cafodd y Cynghorydd M. Palfreman, fel aelod lleol, gyfle i ymateb i gyhoeddiad yr Arweinwyr a mynegodd ei werthfawrogiad a'i gefnogaeth barhaus i ymdrechion y cyngor wrth gyflwyno achos cadarn i Lywodraeth y DU yn erbyn y cynnig.

Rhoddodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg ddiweddariad i'r Cyngor ar yr Eisteddfod a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Llanymddyfri ac estynnodd ei ddiolch a'i werthfawrogiad i bawb a fu'n rhan o'r gwaith o sicrhau llwyddiant yr Eisteddfod. Rhoddodd hefyd ganmoliaeth i'r ysgolion a'r plant o Sir Gaerfyrddin a fu'n cymryd rhan yn yr eisteddfod gyda 90% o ysgolion cynradd a 100% o ysgolion uwchradd y sir yn cael eu cynrychioli.

## 5. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR:

### 5.1. 10FED MAI 2023

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 10 Mai 2023 yn gofnod cywir.**

### 5.2. 24AIN MAI 2023

Tynnwyd sylw'r Cyngor at gofnod rhif 9 yn ymwneud â phenodi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau / Paneli a nodwyd bod y cyfeiriad at y Cynghorydd L. Davies yn cael ei benodi'n Is-gadeirydd y Pwyllgor Apeliadau yn anghywir a dylai yn hytrach nodi y Cynghorydd L.M. Davies.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 24 Mai 2023 yn gofnod cywir yn amodol ar newid yr uchod.**

## 6. ARGYMHELLION DRAFFT - ADOLYGIAD CYMUNEDOL YN SIR GAERFYRDDIN

Atgoffwyd y Cyngor, yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2023 ei fod, o dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth)(Cymru) 2014, wedi cymeradwyo cychwyn Adolygiad Cymunedol i archwilio trefniadau Llywodraethu presennol Cynghorau Tref a Chymuned yn Sir Gaerfyrddin ac i wneud

argymhellion terfynol ar gyfer unrhyw newidiadau priodol. Yn unol â'r penderfyniad hwnnw, cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol rhwng 13 Mawrth a 24 Ebrill ac roedd y canlyniadau fel y manylwyd yn Atodiad A i'r adroddiad, yn crynhoi'r ymatebion a'r cynigion ar gyfer yr argymhellion drafft a dderbyniwyd ynghyd â'r argymhellion a gyflwynwyd gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol/Swyddog Canlyniadau.

Dywedwyd wrth y Cyngor, yn amodol ar dderbyn argymhellion yr adroddiad, y byddai angen cynnal ail gyfnod ymgynghori gyda'r canlyniad i'w ailgyflwyno i'r Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Hydref i benderfynu ar ei argymhellion terfynol.

**PENDERFYNWYD:**

**6.1 bod y cynigion a nodir yn Atodiad A i'r adroddiad yn cael eu mabwysiadu gan y Cyngor fel Argymhellion Drafft at ddibenion yr Adolygiad Cymunedol.**

**6.2 bod yr Argymhellion Drafft yn cael eu cyhoeddi at ddibenion ymgynghori o ddydd Llun 26 Mehefin hyd at ddydd Llun 7 Awst 2023**

**6.3 Bod canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu hadrodd i'r Cyngor ar 11 Hydref 2023.**

## 7. YSTYRIED ARGYMHELLION Y CABINET O RAN Y MATERION CANLYNOL:-

### 7.1. POLISI ENWI STRYDOEDD A RHIFO EIDDO

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Cabinet yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mai 2023 (Cofnod 7) wedi ystyried adroddiad ar fabwysiadu Polisi Enwi Strydoedd a Rhifo Eiddo ar gyfer Sir Gaerfyrddin, yn dilyn ymgynghoriad ar y polisi drafft a ystyriwyd gan y Cyngor ar 28 Medi 2022 (Cofnod 9.1). Nodwyd bod chwe ymateb wedi dod i law i'r ymgynghoriad, fel y manylwyd yn yr atodiad i'r adroddiad, ac nid oedd yr un ohonynt, yn golygu gwelliant penodol i'r polisi drafft.

Dywedodd yr Aelod Cabinet mewn ymateb i sylwadau, ei bod yn croesawu unrhyw enghreifftiau gan aelodau o unrhyw faterion neu anghysondebau ar enwi strydoedd / rhifo eiddo yn eu wardiau y byddai angen eu hystyried a'u trin o dan y polisi newydd.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Cabinet:-**

**“bod y Polisi Enwi Strydoedd a Rhifo Drafft yn cael ei fabwysiadu”.**

## 8. DERBYN ADRODDIAD CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD AR Y

### 8.1. 24AIN EBRILL 2023

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 24 24 Ebrill 2023.**

### 8.2. 22AIN MAI 2023

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 22 Mai, 2023.**

## 9. YSTYRIED Y RHYBUDDION O GYNNIG CANLYNOL:-

### 9.1. RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORWYR ALUN LENNY AC EDWARD THOMAS

Bu'r Cyngor yn ystyried y Rhybudd o Gynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Alun Lenny ac Edward Thomas-

“Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn datgan bod cyflwr dirywiol llawer o ffyrdd yn ein sir yn rhan o broblem acíwt ledled y DU a achosir gan dangyllido awdurdodau lleol yn y tymor hir gan lywodraethau Ceidwadol olynol y DU ers 2010.

Mae'r Cyngor yn nodi bod y £200m ychwanegol a ddyrannwyd yn ddiweddar gan San Steffan tuag at y 'gronfa dyllau' yn ffracsiwn o'r amcangyfrif o £14b sydd ei angen i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith atgyweirio ffyrdd lleol yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r Cyngor hefyd yn nodi gyda braw adroddiad diweddar gan Gynghrair Diwydiant Asphalt sy'n honni bod gan bron i un rhan o bump o'r ffyrdd a reolir gan gynghorau lleol yng Nghymru a Lloegr ddisgwyliad oes o lai na phum mlynedd, a bydd angen eu tynnu, eu hatgyweirio a'u hailwynebu.

Mae'r cyngor hwn felly yn galw ar:

- Llywodraeth y DU i ddechrau cynllunio nawr sut i ddyrannu o leiaf £14b yn ei chyllideb nesaf fel mesur brys i alluogi cynghorau lleol i fynd i'r afael â'r dirywiad difrifol hwn yn ein seilwaith, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, cyn y gaeaf nesaf;
- Llywodraeth Cymru i sicrhau bod yr holl gyllid a ddyrannwyd tuag at y pennawd hwn drwy fformiwla Barnett yn cael ei drosglwyddo i gynghorau sir, ac i ddargyfeirio peth o'r arian a arbedwyd drwy gael gwared ar gynlluniau ffyrdd newydd yng Nghymru yn ddiweddar i'r cynghorau i'w galluogi i gynyddu'r gwaith o atgyweirio ffyrdd presennol nad ydynt yn gefnffyrdd".

Eiliwyd y cynnig.

Rhoddwyd cyfle i gynigwyr ac eilydd y Cynnig siarad o blaid y Cynnig a bu iddynt amlinellu'r rhesymau dros ei gyflwyno, fel y'u nodwyd yn y Cynnig.

Gwnaed nifer o ddatganiadau yn mynegi cefnogaeth i'r Cynnig.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y Rhybudd o Gynnig yn cael ei gefnogi.**

## 10. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD.

## 10.1. CWESTIWN GAN CHARLIE EVANS I'R CYNGHORYDD EDWARD THOMAS - YR AELOD CABINET DROS WASANAETHAU TRAFNIDIAETH, GWASTRAFF A SEILWAITH.

(NODER: Roedd y Cynghorydd S. Davies wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach a pharhaodd yn y cyfarfod tra oedd yr eitem yn cael ei thrafod)

"Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi cyhoeddi ei bod yn dod â'r Cynllun Argyfwng Bysiau i ben ar 24 Gorffennaf.
Mae corff y diwydiant, Coach and Bus Operators Cymru, sy'n cynrychioli cwmnïau bach, wedi mynegi pryderon yn y gorffennol y byddai 65% i 100% o'r gwasanaethau'n cael eu torri.
Byddai hyn yn cael effaith ddinistriol ar ein cymunedau, gan olygu na fyddai ein trigolion mwyaf agored i niwed yn gallu defnyddio canol ein trefi a'n pentrefi mor rhwydd ac na fyddai gweithwyr yn gallu cyrraedd y gwaith mor rhwydd, a byddai'n cynyddu traffig ceir a thagfeydd yn ein cymunedau. Ymddengys fod hyn yn hollol groes i strategaethau net sero a thrafnidiaeth gyhoeddus Cytundeb Cydweithio Llafur a Phlaid Cymru.
Pa waith cynllunio - ariannol, gweithredol a logistaidd - y mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn ei wneud i sicrhau bod gennym yr un lefel o wasanaethau bysiau ledled Sir Gaerfyrddin ar ôl 24 Gorffennaf".
**Ymateb gan y Cynghorydd Edward Thomas, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith:-**

Mae eich cwestiwn yn codi nifer o bwyntiau y byddaf yn ymateb iddynt yn eu trefn os yw hynny'n iawn gyda chi.

Ydy, mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi cyhoeddi ei bod yn dod â'r Cynllun Argyfwng Bysiau i ben ar 24 Gorffennaf. Fodd bynnag, ddydd Gwener diwethaf, a dim ond dydd Gwener diwethaf, cyhoeddwyd bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod £46m ar gael ar ffurf Cronfa Bontio ar gyfer Bysiau ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfan. Bydd y cyllid hwn yn cadw gwasanaethau strategol Traws Cymru i redeg. Ond, mae hefyd yn siomedig iawn i ni weld bod y Dirprwy Weinidog wedi parhau gyda'i gynlluniau i ddod â'r Cynllun Argyfwng Bysiau i ben er gwaethaf cefnogaeth drawsbleidiol yn gwrthwynebu'r toriadau ond, rydym yn croesawu bod modd ymestyn y cymorth am y flwyddyn bresennol.

Yn y Siambr hon ychydig wythnosau'n unig yn ôl roedd cytundeb ar draws y Siambr yn gwrthwynebu unrhyw ostyngiad i gyllid ar gyfer gwasanaethau. Mae'r cyngor hwn wedi bod yn bendant ac yn gyson ei farn yn gwrthwynebu'r toriadau i'r Cynllun Argyfwng Bysiau ac mae hyn wedi cael ei godi gennyf i ac Arweinydd y Cyngor drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru.

Mae'n rhaid i mi ddweud nid wyf yn deall y cynllun sydd gan y Dirprwy Weinidog - ar un llaw mae'n ymddangos ei fod am ein hannog allan o'n ceir ac i drafnidiaeth gyhoeddus ond nid yw'n ymddangos ei fod eisiau gormod o drafnidiaeth gyhoeddus chwaith. Fodd bynnag, fel y dywedais, nid ydym yn hapus gyda'r toriadau, ond rydym yn deall na fydd y gostyngiadau mewn gwasanaethau ledled

Sir Gaerfyrddin yn agos at y 65%-100% a ddyfynnwyd gennych yn eich cwestiwn. Fel yr wyf yn ei ddeall ar hyn o bryd, byddwn ond yn colli nifer fach o wasanaethau, ond mae'r trafodaethau hyn yn parhau yn rhanbarthol.

Rwy'n cytuno â'ch pwynt chi, ynglŷn â cholli Trafnidiaeth Gyhoeddus "gan olygu na fyddai ein trigolion mwyaf agored i niwed yn gallu defnyddio canol ein trefi a'n pentrefi mor rhwydd ac na fyddai gweithwyr yn gallu cyrraedd y gwaith mor rhwydd, a byddai'n cynyddu traffig ceir a thagfeydd yn ein cymunedau." Mae angen i ni sicrhau bod gan ein trigolion fynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a, gyda'r argyfwng costau byw presennol, mae'r car yn prysur ddod yn foethusrwydd na all rhai ei fforddio. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru i sicrhau nad yw hyn yn digwydd.

Rydych chi'n sôn bod hyn yn hollol groes i Gytundeb Cydweithredu Llafur a Phlaid Cymru ond, wrth gwrs, nid yw cymorthdaliadau bysiau yn rhan o'r Cytundeb cydweithredu hwnnw. Yr hyn y mae'r Cytundeb Cydweithredu yn ei nodi yw'r angen i ddatblygu systemau metro mewn rhannau o Gymru a'r angen i symud tuag at fod yn Garbon Sero Net.

Caniatewch i mi am eiliad ystyried eich cyfeiriad at 'wrthgyferbyniad llwyr', mae cyferbyniad amlwg iawn rhwng chwe biliwn o bunnoedd a dim punnoedd o gwbl. Byddai cyllid canlyniadol digonol yn datrys y sefyllfa hon. Rwy'n cyfeirio, wrth gwrs at HS2, sy'n cael ei ystyried yn brosiect 'Cymru a Lloegr gan y Llywodraeth Geidwadol' - er nad yw'n croesi'r ffin i Gymru, felly sut y gall hwn fod yn Brosiect Cymru a Lloegr. Mae cyllid canlyniadol wedi'i ddarparu yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, a dylai ddarparu cyllid o £6bn o dan Fformiwla Barnett yn ôl cyfrifiadau Llywodraeth Cymru. Ond, mae'r Llywodraeth Dorïaidd yn parhau i ystyried y llwybr drwy Loegr fel gwasanaeth i Gymru - alla i ddim deall hynny. Rwy'n credu bod angen i ni edrych ar y map. Fel y gallwch werthfawrogi byddai chwe biliwn o bunnoedd yn ein galluogi i wneud cymaint o ran datblygu trafnidiaeth gyhoeddus yn Ne-orllewin Cymru ac yn Sir Gaerfyrddin ac, rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno â mi fod gan y Llywodraeth Dorïaidd yn Llundain y modd i wneud yn iawn am hyn.

O ran yr hyn yr ydym yn ei wneud, wel dylanwadir hynny gan y cyhoeddiad a wnaed gan y Dirprwy Weinidog yr wythnos diwethaf ac mae'n ymddangos ar lefel sirol, fel y soniais yn gynharach, efallai na fyddwn yn gweld y toriadau i wasanaethau a ragfynegwyd gennym yn wreiddiol. Fodd bynnag, mae pob plaid yn cydnabod rôl trafnidiaeth gyhoeddus wrth alluogi mynediad at wasanaethau ac maent yn gweithio gyda'i gilydd i:

1. Archwilio goblygiadau gostyngiad cenedlaethol mewn cymorth cyllido,
2. Gweithio ar gynlluniau rhwydwaith y bydd gostyngiad yn y cyllid yn ei achosi,
3. Cyflwyno achos dros gymorth pellach wrth i'r sector barhau â'r broses araf o adfer yn dilyn y pandemig a phwysau economaidd ehangach eraill.

Mae wedi bod yn broses anodd. Does neb eisiau gweld gostyngiad mewn gwasanaethau i gymunedau, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar lefel ranbarthol a chenedlaethol. Fodd bynnag, rwy'n falch o ddweud, oherwydd ymdrechion y Cyngor Sir ac awdurdodau lleol eraill, drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, cafwyd safbwynt gweithio ar y cyd lle bydd

cyllid yn cael ei ddarparu i'r sectorau i leihau'r risg i wasanaethau sy'n gweithredu ar hyn o bryd hyd at ddiwedd y flwyddyn.

Mae gwaith pellach yn parhau, wrth i bawb ystyried cyhoeddiad y Dirprwy Weinidog ddydd Gwener diwethaf. Mae'n amlwg bod angen i Lywodraeth Cymru amlinellu ateb ariannu hirdymor ar gyfer gwasanaethau bysiau yng Nghymru ac mae angen datblygu gweledigaeth glir ar gyfer trafnidiaeth rheilffordd, bysiau a thrafnidiaeth gymunedol yn Ne-orllewin Cymru. Fel y soniais yn gynharach, mae gwir angen i Lywodraeth Geidwadol y DU gamu i'r adwy a darparu dyraniad teg o adnoddau i bobl Cymru a Sir Gaerfyrddin i gyflawni'r weledigaeth honno.

**Cwestiwn atodol gan Mr. Evans:-**

Mae trigolion Llangynnwr a Nantycaws yn bryderus iawn y bydd gwasanaethau bws yn cael eu cwtogi ymhen pum wythnos yn unig. Felly,pryd bydd y cyhoedd yn cael gwybod gan Gyngor Sir Caerfyrddin pa wasanaethau fydd yn cael eu torri ar ôl 24 Gorffennaf.

**Ymateb gan y Cynghorydd Edward Thomas, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith:-**

Diolch i Mr Evans am y cwestiwn atodol hwnnw. Yn amlwg, bydd angen i mi gael wybod mwy am y gwasanaethau ar gyfer Llangynnwr ac, fel y dywedais, rydym yn gweithio ar draws y rhanbarth ar effeithiau'r cyhoeddiad hwn a ddaeth i law dim ond dydd Gwener diwethaf. Felly, rydym yn gweithio gyda'n gilydd.

## 11. CWESTIYNAU GAN AELODAU (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan yr Aelodau.

## 12. COFNODION ER GWYBODAETH YN UNIG:-

Dywedodd y Cadeirydd fod y cofnodion a amlinellir ar agenda 12.1 – 12.6 ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor.

| | |
|---|---|
| ______________________ | ________________ |
| **CHAIR** | **DATE** |

**Y CYNGOR LLAWN**
**12/07/2023**

## ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU I'R CYNGOR LLAWN

**Y Pwrpas:**

Derbyn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2022-2023

**Yr Argymhellion / Penderfyniadau allweddol sydd eu hangen:**

Nodi'r adroddiad blynyddol

**Y Rhesymau:**

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 bellach yn ei gwneud yn ofynnol i Bwyllgorau Safonau adrodd i'r Cyngor Llawn yn flynyddol

| | |
|---|---|
| Angen i'r Cabinet wneud penderfyniad | NAC OES |
| Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad | OES |

YR AELOD CABINET SY'N GYFRIFOL AM Y PORTFFOLIO:- Amherthnasol

| Y Gyfarwyddiaeth: | Swyddi: | Ffôn: 01267 224018 |
|---|---|---|
| Y Prif Weithredwr | | Cyfeiriadau e-bost: rjedgeco@sirgar.gov.uk |
| Enw Pennaeth y Gwasanaeth: | Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith | |
| Linda Rees-Jones | | |
| Awdur yr Adroddiad: | | |
| Robert Edgecombe | Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol | |

# EXECUTIVE SUMMARY

| STANDARDS COMMITTEE ANNUAL REPORT TO FULL COUNCIL | |
|---|---|
| The Local Government and Elections (Wales) Act 2021 now requires Standards Committees to report to Full Council on an annual basis.<br><br>The Act requires the report to contain certain information regarding the activities of the committee during the year and to provide an assessment as to whether the Group Leaders on the Council have complied with their duties under the 2021 Act to<br><br>1. Take reasonable steps to promote and maintain high standards of conduct by the members of their group and;<br>2. Co-operate with the Council's Standards Committee in the exercise of the Standards Committee's functions.<br><br>A copy of the Annual report is attached and will be presented to Full Council by the Chair of the committee, Mary Dodd | |
| **DETAILED REPORT ATTACHED?** | **YES** |

# IMPLICATIONS

| I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report: | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Signed:** *Linda Rees-Jones* | **Head of Administration and Law** | | | | | |
| Policy, Crime & Disorder and Equalities | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Staffing Implications | Physical Assets |
| **NONE** | **YES** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

**Legal**

There is a statutory duty upon the Standards Committee to present its Annual Report to Full Council

# CONSULTATIONS

**I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below**

**Signed:** *Linda Rees-Jones* **Head of Administration and law**

| **1. Scrutiny Committee request for pre-determination** | N/A |
|---|---|
| **Scrutiny Committee** | |
| **Date the report was considered:-** | |
| **Scrutiny Committee Outcome/Recommendations:-** | |

**2.Local Member(s)**
N/A

**3.Community / Town Council**
N/A

**4.Relevant Partners**
N/A

**5.Staff Side Representatives and other Organisations**
N/A

| **CABINET MEMBER PORTFOLIO HOLDER(S) AWARE/CONSULTED** NO | N/A |
|---|---|

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**
**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

| **Title of Document** | **File Ref No.** | **Locations that the papers are available for public inspection** |
|---|---|---|
| Legal Services File | DPSC-210 | County Hall |

# STANDARDS COMMITTEE

## ANNUAL REPORT 2022-2023


Foreword

1. Period Covered by the Report

2. Terms of Reference

3. Membership of the Committee

4. Referrals from the Public Services Ombudsman for Wales

5. Notices issued by the Adjudication Panel for Wales

6. Cases Closed by the Public Services Ombudsman for Wales

7. Applications for Dispensation

8. Code of Conduct Training

9. Whistleblowing Policy

10. Code Compliance by Town and Community Councils

11. Group Leaders Duty

12. Other Activities

13. Conclusion

**Foreword by Chair of Standards Committee**

It is my pleasure to present to Full Council the annual report for the Standards Committee, covering the period 1st April 2022 to 31st March 2023.

As Councillors you will know that the law requires every County and County Borough Council in Wales to establish and maintain a Standards Committee. Such committees are responsible for overseeing standards of conduct for elected members of both the principal council and the constituent community and town councils within the principal council's area.

In performing this role, the Committee receives and determines applications for dispensation from elected members in relation to the Code of Conduct and adjudicates upon code complaints referred to the Council by the Public Services Ombudsman for Wales.

In addition, the Committee also receives reports in relation to the operation of the Council's whistle-blowing policy.

This is the first annual report presented by the Standards Committee in accordance with the requirements of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 which placed new duties upon political group leaders to promote compliance with the code by their group members. This Act also placed a requirement upon Standards Committees to report on how well group leaders have complied with those duties and our findings in this regard can be found at section 9 of this report.

Mary Dodd
Chair – Carmarthenshire County Council Standards Committee

## 1. **PERIOD COVERED BY THE REPORT**

This report covers the activities of the Standards Committee during the period 1st April 2022 to 31st March 2023.

During this period the committee met a total of 14 times, which is significantly more than normal. This was largely due to the committee having to deal with 2 referrals from the Public Services Ombudsman for Wales, but several additional meetings also had to be called to deal with dispensation requests.

## 2. **TERMS OF REFERENCE**

The role and functions of the committee as set out in the constitution of the Council are:

- To promote and maintain high standards of conduct by councillors and co-opted members.
- To assist councillors and co-opted members to observe the Members' Code of conduct.
- To advise the Council on the adoption or revision of the Members' Code of Conduct
- To monitor operation of the Members' Code of Conduct
- To advise, or arrange training for councillors and co-opted members on matters relating to the Members' Code of Conduct
- To grant dispensations to councillors and co-opted members where they have a personal and prejudicial interest under the Members' Code of Conduct
- To deal with reports from the Adjudication Panel for Wales and reports from the Monitoring Officer or the Public Services Ombudsman for Wales
- The exercise of the above functions in relation to Town and Community Councils in the county
- To receive annual reports on the operation of the Council's Whistleblowing Policy

3. **MEMBERSHIP OF THE COMMITTEE**

The Panel consists of 9 members, 3 County councillors, 1 Community councillor and 5 co-opted members.

There were no no changes to the co-opted members of the committee during the period covered by this report. The co-opted members were.

Mrs Mary Dodd (Chair)
Mrs. Julie James (Vice-chair)
Mrs. Daphne Evans
Mrs. Caryl Davies
Mr. Frank Phillips

The Community council member of the committee Councillor Philip Rogers (St. Clears Town Council) was reappointed following the elections in May 2022.

There were changes to the County Council members following the May 2022 elections. The County Council members of the committee during the period covered by this report were.

Councillor. Jeanette Gilasbey (until the May 2022 elections)
Councillor Betsan Jones (after the May 2022 elections)
Councillor. Gareth Thomas
Councillor. Rob James

## 4. **Referrals from The Public Services Ombudsman for Wales**

As indicated in section 1 the Committee was required to adjudicate upon two reports received from the Public Services Ombudsman for Wales under Part III of the Local Government Act 2000 during the year. These related to allegations that certain councillors had breached the members code of conduct.

Both reports related to individuals who were Town or Community Councillors at the time the code breaches occurred.

One case was concluded entirely during the period covered by this report and resulted in the member in question being suspended from office. This case arose following the conviction of the member in question for a criminal offence. This conviction attracted adverse public comment and it was concluded that the member's conduct had brought the office of councillor and the council itself into disrepute.

In the second case a 2-day hearing took place in February 2023 but it was necessary to adjourn matters into a third day due to the volume of evidence presented. Therefore, the case was not concluded until April 2023. Although falling outside the scope of this report I can confirm that this member was also suspended from their role as a Town councillor.

This case arose from an incident in a public space between the councillor in question and 3 other councillors. The committee found the alleged conduct largely proven and that it breached the code of conduct and brought the office of councillor and the relevant council into disrepute.

The code breaches occurred in 2020 and 2021 respectively and, whilst the investigations were undoubtedly impacted by the COVID 19 pandemic, this does demonstrate that these matters can be lengthy ,complex, costly and traumatic for the individual councillor concerned.

## 5. **Notices Received from the Adjudication Panel for Wales**

No notices were received from the Adjudication Panel for Wales pursuant to Chapter 4 of Part III of the Local Government Act 2000 during the period covered by this report.

6. **Cases closed by the Public Services Ombudsman for Wales**

During the period covered by this report the Council's Monitoring Officer was notified that Public Services Ombudsman for Wales had considered and closed a total of 15 code of conduct complaints against councillors from Carmarthenshire. This figure includes the 2 cases referred to in section 4. The breakdown of these cases is shown in the table below.

| COUNCIL | Decision not to Investigate | No Action (Following Investigation) | Referred to Standards Committee | Total No. of Complaints Closed |
|---|---|---|---|---|
| Carmarthenshire County Council | 10 | 1 | 0 | 11 |
| Kidwelly Town Council | 1 | 0 | 0 | 1 |
| Llandovery Town Council | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Llanelli Rural Council | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Pembrey and Burry Port Town Council | 1 | 0 | 0 | 1 |
| Total | 12 | 1 | 2 | 15 |

There may however also be complaints currently with the Ombudsman awaiting determination.

The committee continues to be satisfied that most councillors do comply with the code and that where allegations of breach are made, they are usually unfounded or are not considered by the Ombudsman to be sufficiently serious to warrant enforcement action.

However, as the 2 referrals that were made to the committee in 2022 demonstrate councillors should not be complacent and must be always mindful of their obligations under the code.

7. **APPLICATIONS FOR DISPENSATION**

The Committee considered 52 applications for dispensation from County and Community and Town Councillors during the year, all but one of which were either granted or partly granted.

This represents a significant increase compared to previous years, although this was due at least in part to councillors seeking to renew dispensations previously granted to them which had lapsed due to the May 2022 elections.

The grounds upon which the Committee may grant a dispensation are set out in the Standards Committees (Grant of Dispensations) (Wales) Regulations 2001.

The Committee continues to approach each application with a presumption in favour of granting a dispensation wherever practicable, particularly in relation to granting a dispensation to speak only.

Details of the applications that have been dealt with can be viewed as part of the minutes of the meetings of the Committee which are accessible on Carmarthenshire County Council's website www.carmarthenshire.gov.uk.

8. **CODE OF CONDUCT TRAINING**

Three Code of Conduct Training sessions were held during the period covered by this report. These were.

- 17th May 2022 – for new County Councillors
- 4th July 2022 – for Town and Community Councillors
- 27th July 2022 – for Town and Community Councillors

All the sessions were run in a hybrid manner, and all were well attended.

9. **WHISTLEBLOWING POLICY**

The Committee has oversight of the authority's Whistleblowing Policy. The process is regulated by the Public Interest Disclosure Act 1998, which protects against dismissal and other detriment for workers who disclose information in the public interest in prescribed circumstances to prescribed persons.

The number of whistleblowing complaints recorded during the period of this report are set out below.

| New Complaints | Complaints carried over from 2021/22 | Cases Concluded | Cases Continuing |
|---|---|---|---|
| 3 | 1 | 4 | 0 |

The number of complaints continues to be consistent with those received by other local authorities.

It is pleasing to note that no cases have been carried over into 2023/2024 for investigation. This continues the general trend of improvement in this regard.

The Committee reviewed the Whistleblowing Policy during the period covered by this report and updated it to reflect changes to the nominated contact officers listed.

## 10. **CODE OF CONDUCT COMPLIANCE BY TOWN AND COMMUNITY COUNCILS**

The committee again received a report regarding the extent to which Town and Community Councils within the County are complying with the Code of Conduct. The report contained data relating to:

- Code complaints
- Dispensation requests
- Declaration of interests
- Code Training

No obvious patterns or trends could be discerned from the data. Overall levels of compliance with the code appeared to be good as evidence by the figures in section 6.

## 11. **GROUP LEADERS DUTY**

As indicated in the foreword to this report the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 places new duties on political group leaders and requires Standards committees to monitor and report on their performance of these duties.

The group leaders' duties are.

• To take reasonable steps to promote and maintain high standards of conduct by the members of their group
• To co-operate with the council's standards committee in the exercise of the standards committee's functions

### <u>Summary of steps taken by the Standards Committee</u>

The Monitoring Officer made the Council's 3 political group leaders aware of these duties following the May 2022 elections and on the 2nd February 2023 I wrote to group leaders reminding them of their duties under the Act. Group leaders were asked to provide a report

setting out how they had complied with those duties by the 31st March 2023. All Group Leaders were also provided with a template report for them to use if they wished.

## Summary of reports received from the Group Leaders

**Cllr Darren Price – Plaid Cymru Group**

Cllr Price provided a report on the 29th March 2023. This confirmed that 7 complaints had been made to the Ombudsman against members of the Plaid Cymru Group during the period covered by the report, none of which had been upheld. He also confirmed that one group member had referred himself to the Ombudsman and that the matter was still under investigation as at the 31st March 2023.

Councillor Price confirmed that 21 out of 38 group members (55%) had attended the code training in May 2022 and outlined the steps that he had taken to ensure that the remaining group members also attended code of conduct training arranged for April and May 2023. Councillor Price explained that more experienced members of the group helped new members understand and comply with the requirements of the code.

Councillor Price has attended Code of Conduct Training since the May 2022 elections.

**Cllr Rob James – Labour Group**

Councillor James provided a report on the 24th May 2023. This confirmed that 4 complaints had been made to the Ombudsman regarding Labour Group Members and that 2 further Labour Group Members has been referred to the Council's own Informal Resolution Procedure. Councillor James also confirmed that all group members had received code training since May 2022 and that the Group had put in place specific measures to ensure that the use of social media accounts did not breach the code.

Councillor James has attended code of conduct training since the May 2022 elections.

**Cllr Jane Tremlett – Independent Group**

Councillor Tremlett provided a report dated the 31st March 2023. This confirmed that no code of conduct complaints had been made against members of the Independent Group during the period covered by the report.

Councillor Tremlett highlighted that only 3 group members had attended code of conduct training immediately following the May 2022 elections and that she had taken steps to stress to the remaining group members the importance of attending the additional code training sessions arranged in April and May 2023.

Councillor Tremlett has attended code of conduct training since the May 2022 elections.

Assessment of the extent to which political group leaders have complied with their duties under the Act.

The committee are satisfied that, based on the information before them , all the Group Leaders have complied with their duties under the 2021 Act.

Summary of any action taken following consideration of the Group Leaders reports

The committee will consult with the Group leaders regarding the form and content of the reporting template to facilitate the provision of all relevant information.

## 12. **OTHER ACTIVITIES**

In addition to the above activities the Committee also:

- Received and considered case decisions of the Adjudication Panel for Wales
- Received and considered case decisions made by other Standards Committees in Wales

Where appropriate the Committee has identified points of learning and best practice and has taken them into account in their own decision making and included them in the training referred to in paragraph 5 above.

## 13. **CONCLUSION**

The committee had a very busy year, and I am grateful to my fellow committee members for their valuable contributions throughout.

There have been generally good levels of compliance with the Code of Conduct exhibited by Councillors across the County, but the 2 referrals by the Ombudsman are a reminder to everyone of the consequences of breaching the Code.

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# CABINET

## DYDD LLUN, 19 MEHEFIN 2023

**PRESENNOL:** Y Cynghorydd L.D. Evans (Is-gadeirydd yn Cadeirio'r cyfarfod) (Yn y Siambr)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| C.A. Davies | G. Davies | P.M. Hughes | G.H. John |
| A. Lenny | E.G. Thomas | J. Tremlett | A. Vaughan Owen |

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
Y Cynghorydd D.M. Cundy

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
W. Walters, Prif Weithredwr
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
A. Williams, Cyfarwyddwr Lle a Seilwaith;
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
J. Jones - Pennaeth Adfywio;
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
L. Jenkins - Swyddog Cymorth y Cabinet
C. Higginson, Rheolwr Cyfryngau
A. Eynon, Prif Gyfieithydd
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin: 9.30 yb - 10.35 yb**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd D. Price, y Cadeirydd, a oedd wrthi’n ymwneud â mater arall yn gysylltiedig â gwaith y Cyngor.

**2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| A. Davies | 5 - Cwestiynau â Rhybudd gan y Cyhoedd | Mae'r llwybr beicio yn mynd drwy dir y mae ei theulu'n berchen arno ac yn ei ffermio. Personol a rhagfarnol |
| A. Davies | 15 - Cronfa Cymunedau Cynaliadwy | Mae un o'r ceisiadau wedi cael ei gyflwyno gan Grŵp yn ei ward. Personol a rhagfarnol |
| G. Davies | 15 - Cronfa Cymunedau | Mae un o'r ceisiadau wedi |

| | | |
|---|---|---|
| | Cynaliadwy | cael ei gyflwyno gan Grŵp yn ei ward. |
| L.D. Evans | 11 – Polisi Cyflogau Athrawon Enghreifftiol 2022/23 | Mae ei merch yn athrawes. |
| P.M. Hughes | 15 - Cronfa Cymunedau Cynaliadwy | Mae un o'r ceisiadau wedi cael ei gyflwyno gan Grŵp yn ei ward. |
| A. Vaughan-Owen | 11 – Polisi Cyflogau Athrawon Enghreifftiol 2022/23 | Mae ei wraig yn bennaeth ysgol. |
| A. Vaughan-Owen | 15 - Cronfa Cymunedau Cynaliadwy | Mae'n aelod o nifer o grwpiau sydd wedi gwneud ceisiadau. |

**3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD AR YR 22AIN O FAI, 2023**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 22 Mai 2023 yn gofnod cywir.**

**4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

**5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD**

[NODER: Gan ei bod wedi datgan buddiant yn y mater hwn yn gynharach, gadawodd y Cynghorydd A. Davies y cyfarfod cyn i'r eitem hon gael ei hystyried a chyn i benderfyniad gael ei wneud yn ei chylch.]

Dywedodd y Cadeirydd fod un cwestiwn wedi dod i law gan y cyhoedd.

**5.1. CWESTIWN GAN MR HAVARD HUGHES I'R CYNG. EDWARD THOMAS, YR AELOD CABINET DROS WASANAETHAU TRAFNIDIAETH, GWASTRAFF A SEILWAITH**

“Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi y dylai prynu gorfodol fod yn opsiwn 'pan fetho popeth arall' yn dilyn negodi i werthu tir yn wirfoddol. Ac eto ymddengys fod Gorchymyn Prynu Gorfodol y Cyngor mewn perthynas â Llwybr Beicio Dyffryn Tywi yn berthnasol i'r llwybr cyfan o Felin-wen i Landeilo. Heb ofyn am ddatgelu enwau unigol, a wnewch chi roi sicrwydd i'r cyhoedd bod negodiadau wedi'u dechrau mewn perthynas â'r tir oedd ei angen ar gyfer y Llwybr Beicio a chadarnhau faint - os o gwbl - o werthiannau gwirfoddol sydd wedi'u sicrhau y tu allan i'r Gorchymyn Prynu Gorfodol.”

**Ymateb gan y Cynghorydd Edward Thomas, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith:-**

“Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn ymwybodol o'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch gwneud Gorchmynion Prynu Gorfodol ac yn

cydnabod disgwyliad Gweinidogion Cymru bod yn rhaid i'r Awdurdodau Caffael ddangos eu bod wedi cymryd camau i gaffael yr holl dir a hawliau sydd wedi'u cynnwys yn y gorchymyn prynu gorfodol drwy gytundeb lle bynnag y bo modd. Wrth gydgasglu lleiniau a theitlau lluosog bydd y sicrwydd o ran amseriad a'r dull gweithredu cyson a gynigir gan orchymyn prynu gorfodol yn fuddiol. Serch hynny, mae'r Cyngor fel yr Awdurdod Caffael yn ymwybodol o'r angen i fabwysiadu arferion da drwy gynnig cyfle i'r partïon yr effeithir arnynt ymrwymo i gytundeb i werthu'n wirfoddol lle maent yn barod i wneud hynny. Bwriedir i orchymyn prynu gorfodol, yn ôl ei natur, sicrhau bod y tir sydd ei angen i weithredu cynllun yn cael ei gydgasglu lle na ellir ei gaffael drwy gytundeb. Fodd bynnag, ni all Awdurdod Caffael aros nes bod negodiadau wedi chwalu cyn dechrau'r broses prynu gorfodol. Bydd amser gwerthfawr wedi cael ei golli. Felly, o ystyried yr angen i gyflawni'r cynllun mewn modd amserol i gydymffurfio â gofynion y Swyddfa Cyllid Ffyniant Bro, ystyrir ei bod yn synhwyrol, o ystyried faint o amser sydd ei angen i gwblhau'r broses prynu gorfodol a nifer y lleiniau o dir y mae angen eu cydgasglu ar gyfer y llwybr, i'r Cyngor Sir gychwyn gweithdrefn ffurfiol. Bydd hyn yn rhedeg ochr yn ochr â negodiadau parhaus. Mae'r broses prynu gorfodol yn caniatáu cynnwys tir sydd eisoes yn eiddo i'r Awdurdod Caffael mewn gorchymyn prynu gorfodol i sicrhau teitl cyfreithiol llawn. Mae'r Cyngor, cyn dechrau'r broses, wedi ymgynghori a negodi â'r holl dirfeddianwyr, gan gynnwys pob trydydd parti y gallai'r cynnig effeithio ar ei hawliau. Mae pum parsel tir eisoes wedi'u sicrhau a daethpwyd i gytundeb drwy negodi ynghylch chwe pharsel arall. Mae dechrau gweithdrefn prynu gorfodol yn dangos ymrwymiad y Cyngor i gyflawni'r cynllun o'r cychwyn cyntaf. Dangosodd digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus ynghylch creu'r llwybr cyd-ddefnyddio arfaethedig gefnogaeth aruthrol gan y cyhoedd ar gyfer ei gyflawni. Felly, mae'r Cyngor yn hyderus bod ymdrechion wedi'u gwneud i gaffael y tir drwy gytundeb lle bynnag y bo modd, ond ni fydd yr holl dir yn cael ei gaffael yn y modd hwn, felly o ganlyniad nid oes dewis realistig arall ond defnyddio pwerau prynu gorfodol."

**Cwestiwn atodol gan Mr Havard Hughes:-**

"A ydych yn hyderus ynghylch gwario'r cyllid Ffyniant Bro ar gyfer y llwybr beicio erbyn y dyddiad cau, sef mis Mawrth y flwyddyn nesaf, o gofio bod gwrthwynebiad sylweddol ar raddfa fawr ymhlith tirfeddianwyr i'r broses prynu gorfodol, a ydych yn credu bod Ymchwiliad Cyhoeddus yn debygol ac felly bod yr arian yn debygol o gael ei golli?"

**Ymateb gan Mr Jason Jones, Pennaeth Adfywio:-**

"Rydym mor hyderus ag y gallwn fod ac rydym mewn deialog gyson â Llywodraeth y DU ynglŷn â'r cyllid Ffyniant Bro ond mae proses i'w dilyn yn unol â'r cwestiwn a'r ymateb. Nid oes sicrwydd yn hynny o beth, ond rydym yn parhau i fod yn hyderus. Diolch yn fawr."

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Hughes am ei gwestiwn ac am ei bresenoldeb yn y cyfarfod.

6. **SYSTEM IECHYD A GOFAL I ORLLEWIN CYMRU : PA MOR BELL, PA MOR GYFLYM?**

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn amlinellu'r ymateb yng Ngorllewin Cymru i fwrw ymlaen â'r broses integreiddio. Yn benodol, roedd yr papur yn amlinellu cyfle yn Sir Gaerfyrddin i ddatblygu a gweithredu system iechyd a gofal ar gyfer pobl hŷn yn seiliedig ar 'yr hyn sy'n bwysig' i'r boblogaeth hon a'r hyn a fydd yn addas i'r diben nawr ac yn y dyfodol. Roedd y papur hefyd yn ystyried sut i gysoni â'r Ddogfen Drafod Weinidogol sy'n dwyn y teitl 'Yn Bellach, Yn Gyflymach' a disgwyliadau'r ddogfen honno.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**6.1 cydnabod yr adroddiad, y cyfle a'r sefyllfa gyfredol;**

**6.2 cymeradwyo'r cynnig a'r cynllun lefel uchel.**

7. **BYRDDAU DIOGELU PLANT AC OEDOLION CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU ADRODDIAD BLYNYDDOL 2021-2022.**

Bu'r Cabinet yn ystyried Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Plant ac Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru 2021/22 a oedd yn amlinellu'r cynnydd a wnaed yn erbyn y canlyniadau a bennwyd gan CYSUR a CWMPAS fel rhan o Gynllun Strategol Blynyddol ar y cyd.

Mae'r ddwy flynedd flaenorol wedi achosi heriau digynsail i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a'i bartneriaid yn ei ymdrechion i ymateb i heriau pandemig byd-eang COVID-19, wrth sicrhau bod dinasyddion Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cael eu hamddiffyn rhag profi niwed, camdriniaeth neu esgeulustod. Roedd yr adroddiad blynyddol eleni yn amlinellu rhai o'r prif gyflawniadau ac yn dangos sut y cawsant eu cyflawni yn erbyn yr amcanion a bennwyd ar ddechrau'r flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys ymrwymiad parhaus i gyflawni'r agenda Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV).

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr Adroddiad Blynyddol sy'n rhoi Trosolwg o Amcanion a Chyflawniadau Bwrdd Diogelu Plant ac Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer 2021/22.**

8. **DEISEB AM DDIOGELWCH FFYRDD - HEOL Y LLEW DU, CROSSHANDS**

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn manylu ar yr ymateb i'r ddeiseb a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Rhagfyr 2022 ynghylch diogelwch ffyrdd ar hyd Heol y Llew Du yn Cross Hands.

Yng nghyfarfod y Cyngor dywedodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith y byddai'r adran yn ymchwilio i'r materion a godwyd yn y ddeiseb ac y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o Gabinet y Cyngor yn y dyfodol.

Ers hynny mae swyddogion y Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth wedi cynnal ymchwiliad ac mae'r canfyddiadau wedi'u nodi yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**8.1 nodi cynnwys yr adroddiad;**
**8.2 gwrthod cais y deisebwyr am arafu traffig yn Heol y Llew Du;**
**8.3 gwrthod cais y deisebwyr am newidiadau i'r gyffordd groesgam yn Heol y Llew Du;**
**8.4 bod swyddogion yn gweithio i ddylanwadu ar gydymffurfiaeth gyrwyr â therfynau cyflymder ar hyd Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands;**
**8.5 cynnal Archwiliad Diogelwch Ffyrdd Cam 4 maes o law;**
**8.6 hysbysu'r deisebwyr yn unol â hynny.**

**9. DEISEB HARBWR PORTH TYWYN I CYNGOR LLAWN - ADRODDIAD DIWEDDARU.**

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa yn Harbwr Porth Tywyn, yn dilyn deiseb a gyflwynwyd i'r Cyngor llawn ar 25 Ionawr 2023 gan Gyfeillion Marina Porth Tywyn (FBPM).

Nodwyd bod swyddogion sy'n cynrychioli'r adrannau Adfywio, Cyllid a Hamdden yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd â Rheolwr Gyfarwyddwr The Marine Group, lle mae pryderon gweithredol wedi cael eu codi a'u trafod ac yn parhau i gael eu codi a'u trafod. Mae swyddogion hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd â Chadeirydd FBPM.

Mae'r Cyngor Sir yn rhannu nod datganedig FBPM o fod eisiau cyfleuster diogel, gweithredol a deniadol sydd o fudd gwirioneddol i ddefnyddwyr yr harbwr a'r gymuned gyfan.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**9.1 nodi'r sefyllfa o ran rhwymedigaethau prydles Burry Port Marina Ltd (BPML) mewn perthynas â rheoli'r Harbwr;**
**9.2 nodi sefyllfa Cyngor Sir Caerfyrddin mewn perthynas â chyfrifoldebau landlord am brydles yr ased a'r ymgysylltu parhaus gan swyddogion â rheolwyr BPML.**

**10. CYNLLUN TRECHU TLODI.**

Bu'r Cabinet yn ystyried y Cynllun Trechu Tlodi a oedd yn amlinellu ymagwedd y Cyngor tuag at fynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â thlodi.

Mae'r Cynllun hwn yn canolbwyntio ar yr agenda trechu tlodi ehangach, a nodir camau allweddol dros y 12 mis nesaf a fydd yn cefnogi ymateb y Cyngor i'r argyfwng costau byw presennol. Bydd y Cynllun hwn yn cael ei adolygu pan fydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei Strategaeth Tlodi Plant, a ddisgwylir o fewn y 12 mis nesaf.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Cynllun Trechu Tlodi y Cyngor 2023.**

**11. POLISI CYFLOGAU ATHRAWON ENGHREIFFTIOL 2022/23.**

[NODER: (1) Gan iddynt ddatgan buddiant yn y mater hwn yn gynharach, gadawodd y Cynghorwyr L.D. Evans ac A. Vaughan-Owen y cyfarfod cyn i'r eitem hon gael ei hystyried a chyn i benderfyniad gael ei wneud yn ei chylch.

(2) Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, cafodd ei gynnig, ei eilio a'i gytuno y byddai'r Cynghorydd A. Lenny yn cadeirio'r cyfarfod tra oedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.]

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi manylion am Bolisi Cyflogau Athrawon Enghreifftiol diweddaraf 2022/23.

Mae'r polisi wedi cael ei ddiweddaru i gynnwys tâl mis Medi 2022 fel y nodir yn Nogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2022. Mae newidiadau eraill yn cynnwys adolygu'r egwyddor pro-rata ar gyfer lwfansau TLR 1 a 2 a’r Gwyliau Banc ychwanegol i nodi angladd Ei Mawrhydi y Frenhines Elizabeth a choroni Ei Fawrhydi y Brenin Siarl III a olygai fod yn rhaid i athrawon fod ar gael i weithio am 193 diwrnod / 1258.5 o oriau yn lle'r 195 diwrnod arferol.

Er mwyn cydymffurfio â gofynion Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2022, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol gael polisi tâl sy'n nodi sut y gwneir penderfyniadau cyflog,

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Polisi Cyflogau Athrawon Enghreifftiol 2022/23 cyn iddo gael ei ddosbarthu i'r ysgolion er mwyn i'w Cyrff Llywodraethu ei fabwysiadu'n ffurfiol.**

**12. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972.**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.

**13. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**14. FFORDD GYSWLLT GORLLEWIN CAERFYRDDIN - CYTUNDEB TIRFEDDIANWYR A DIGOLLEDU - GWEITHRED AMRYWIO.**

**Yn dilyn cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 13 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf). Roedd prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth a geir ynddo oherwydd byddai datgelu'r wybodaeth yn cael effaith andwyol ar gyllid cyhoeddus drwy danseilio sefyllfa'r Cyngor o ran trafod telerau yn y trafodiad hwn a thrafodiadau tebyg eraill.**

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi manylion am Weithred Amrywio mewn perthynas â Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r Weithred Amrywio.**

## 15. CRONFA CYMUNEDAU CYNALIADWY

[NODER: Gan iddynt ddatgan buddiant yn y mater hwn yn gynharach, gadawodd y Cynghorwyr A. Davies, G. Davies, P.M. Hughes ac A. Vaughan-Owen y cyfarfod cyn i'r eitem hon gael ei hystyried a chyn i benderfyniad gael ei wneud yn ei chylch.]

**Yn dilyn cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 13 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf). Roedd prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth a geir ynddo oherwydd gallai datgelu'r wybodaeth danseilio sefyllfa'r sefydliadau dan sylw mewn perthynas â sefydliadau eraill sy'n gweithredu yn yr un maes gweithgaredd.**

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg o geisiadau a gyflwynwyd o dan y Gronfa Cymunedau Cynaliadwy.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**15.1 dyfarnu cyllid i'r prosiectau a nodir yn Nhabl 2 fel yr argymhellwyd gan y Panel Cyllido;**
**15.2 cymeradwyo cyllid ar gyfer yr 11 prosiect ychwanegol a nodir yn Nhabl 3, yn amodol ar gymeradwyaeth y Bartneriaeth Adfywio.**
**15.3 Trosglwyddo cyllid ychwanegol o £1m i’r Gronfa Cymunedau Cynaliadwy 0 rannau eraill o’r rhaglen SPF.**

**CHAIR** | **DATE**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol